# TYFU FYNY GYDA DAD

## Tadau a'u heffaith ar ddefnyddio sylweddau



Tony Ivens, Pat Dunmore & Nell Warner

Medi 2009

Children in Wales
Plant yng Nghymru

catch 22
helping young people out

**PLANT YNG NGHYMRU**

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ei nod yw hyrwyddo buddiannau plant, gwella gwasanaethau yng Nghymru a gosod plant ar frig yr agenda yng Nghymru. Mae Plant yng Nghymru'n gweithio'n glòs gyda'i aelodau sy'n dod o amryw o gefndiroedd gwahanol. Mae'n casglu ac yn lledaenu gwybodaeth am blant ac yn hyrwyddo arfer da o fewn gwasanaethau plant trwy ymchwil, datblygu polisïau ac arfer, cyhoeddiadau, cynadleddau, seminarau a hyfforddiant. Mae Plant yng Nghymru'n cydlynu amryw o fforymau a rhwydweithiau ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan alluogi pobl broffesiynol i ddod at ei gilydd a chyfnewid gwybodaeth a syniadau. Mae gan Plant yng Nghymru swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaernarfon.

Prif Swyddfa:
25 Plas Winsor,
Caerdydd, CF10 3BZ,
Ffôn: 029 2034 24 34,
Ebost: info@childreninwales.org.uk
Gwefan: www.plantyngnghymru.org.uk

**CATCH22**

Mae Catch22 yn elusen genedlaethol sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig gyda phobl ifanc sy'n cael eu hunain mewn sefyllfaoedd anodd. Beth bynnag yw'r rheswm dros eu sefyllfa, mae Catch22 yn eu helpu. Mae'n gweithio gyda'u teuluoedd a'u cymunedau ble bynnag a phryd bynnag mae pobl ifanc eu hangen fwyaf; mewn ysgolion, ar y strydoedd, yn y cartref, mewn canolfannau cymunedol, canolfannau siopa, gorsafoedd heddlu, ac yn y ddalfa. Wrth i bobl ifanc ddod yn fwy positif, cynhyrchiol ac annibynnol, mae'r gymuned gyfan yn elwa. Cyn iddo fod yn Catch22, roedd yn Rainer & Crime Concern, dwy elusen genedlaethol a ddaeth ynghyd yn 2008. Mae Catch22 yn cefnogi'r gwaith hwn gydag ymchwil ar fywydau pobl ifanc. Un o'r nifer o ffyrdd y gwneir hyn yw trwy'r rhaglen Cymunedau sy'n Gofalu. Catch22 yw'r unig sefydliad sydd wedi'i drwyddedu i gyflenwi'r Rhaglen Cymunedau sy'n Gofalu yn y Deyrnas Unedig.

Swyddfa Cymru:
6ed Llawr, Ty Alecsandra
Heol Alecsandra
Abertawe SA1 5ED
Ffôn: 01792 648833
www.catch-22.org.uk

## CYNNWYS

Cyflwyniad a Chrynodeb Gweithredol 2
Manylion am y Data 2
Tadau 3
Demograffeg Cymru 3
Strwythurau Teuluol 4
Perthnasau 4
Alcohol, Ysmygu a Defnyddio Cyffuriau 5
Alcohol 5
Ysmygu 6
Cyffuriau 7
Canabis 7
Amgyffred Agweddau Rhieni 8
Casgliadau ac Argymhellion 8
Cyfeiriadau 9

**© HAWLFRAINT Plant yng Nghymru 2009**

**ISBN: 978 -1-901871-50-0**

## CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu amlinelliad o ystadegau sy'n edrych ar berthynas pobl ifanc â'u tadau a'r effaith a gaiff tadau ar y tebygolrwydd y bydd person ifanc yn yfed, ysmygu neu'n cymryd cyffuriau. Fe'i datblygwyd trwy ddadansoddi 17,933 o holiaduron a gwblhawyd gan bobl ifanc oedran uwchradd o fewn pedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n edrych ar strwythurau teuluol, ac ar farn pobl ifanc am eu perthynas â'u tad. Yna mae'n ystyried alcohol, ysmygu a defnydd o gyffuriau a pha effaith a gaiff perthynas pobl ifanc â'u tadau ar eu defnydd o'r sylweddau hyn.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

**Mae'r rhan a chwaraeir gan y tad yn effeithio ar blant a phobl ifanc ar draws ystod eang o ganlyniadau. Fodd bynnag mae'r cynnydd yn y nifer o deuluoedd sy'n chwalu'n golygu nad yw tua thraean o bobl ifanc yn byw gyda'u tadau biolegol, gyda 8.2%. Y mae hyn yn gyfwerth â thua 15,000 o bobl ifanc 11 i 15 oed ar draws Cymru yn nodi nad ydynt yn gweld eu tad.**

**Nododd y mwyafrif llethol o blant yng Nghymru eu bod yn teimlo'n agos at eu tad, ac, yn fwy arwyddocaol na hynny o bosib, dwedodd 47% eu bod yn dal i deimlo'n agos ato hyd yn oed os nad oedden nhw'n byw gyda'i gilydd.**

**Mesurwyd effaith y berthynas hon, neu mewn rhai achosion, diffyg perthynas, yn nhermau tri maes ymddygiad ymhlith pobl ifanc: alcohol, ysmygu a defnyddio cyffuriau, yn enwedig canabis. Ymhob un o'r tri maes, roedd hi'n amlwg bod perthynas glòs rhwng tad a phlentyn yn ffactor amddiffynnol yn erbyn y defnydd mwyaf eithafol o'r sylweddau hyn, yn aml i raddau arwyddocaol dros ben.**

- **Roedd 21.3% o'r rhai 15 oed a holwyd oedd yn dweud eu bod yn teimlo'n agos at eu tad wedi cael 5 diod neu ragor deirgwaith neu fwy yn ystod y pedair wythnos flaenorol. Fodd bynnag, ymhlith y rhai oedd ddim yn teimlo'n agos at eu tad roedd y ffigwr hwn yn codi i 33.2%. Yn ddiddorol, roedd y ffigwr ar gyfer y rhai oedd ddim yn gweld eu tadau, sef 27.3% yn dod rhywle rhwng y rhai oedd yn teimlo'n agos at eu tad a'r rhai oedd ddim yn teimlo'n agos. Ymysg y bobl ifanc oedd wedi yfed mwy na deg gwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol, roedd y ffigwr yn codi o 3.2% i 6.0%**
- **Daeth darlun tebyg i'r amlwg mewn perthynas ag ysmygu. Roedd 14.4% o'r rhai oedd yn teimlo'n agos at eu tad yn ysmygu'n rheolaidd, ond roedd y ffigwr yn codi i 25.1% ymhlith y rhai oedd ddim yn mwynhau perthynas glòs a'u tad, ac i 25.7% ymhlith y rhai oedd ddim mewn cysylltiad â'u tad.**
- **Roedd y defnydd o ganabis hefyd yn newid yn dibynnu ar pa mor agos roedd y bobl ifanc yn teimlo at eu tad. Dwedodd 13.8% o'r rhai oedd yn teimlo'n agos at eu tad eu bod wedi defnyddio'r cyffur, gyda'r ffigwr yn codi i 24.7% ymhlith y rhai oedd ddim yn teimlo'n agos at eu tad, ac i 20.3% ymhlith y rhai oedd ddim mewn cysylltiad â'u tad.**

**Roedd y ffordd roedd y bobl ifanc yn amgyffred agweddau eu rhieni hefyd yn cael effaith ar p'un ai oedden nhw'n yfed, yn ysmygu neu'n defnyddio canabis, ac i ba raddau.**

- **Roedd 55.7% o'r rhai 15 oed oedd yn credu nad oedd eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael eu bod nhw'n yfed alcohol wedi yfed pum diod neu ragor ar fwy na thri achlysur yn ystod y pedair wythnos flaenorol. Roedd hynny'n cymharu â 10.7% o'r rhai oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael iawn eu bod nhw'n yfed alcohol.**
- **Roedd 5.0% o'r rhai 15 oed oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael eu bod nhw'n ysmygu, yn ysmygu'n rheolaidd, o'i gymharu â 77.2% oedd yn credu nad oedd eu rhieni'n meddwl ei fod yn beth gwael o gwbl eu bod nhw'n ysmygu.**
- **Doedd 74.6% o'r rhai 15 oed oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael iawn eu bod nhw'n ysmygu canabis erioed wedi'i ysmygu o'i gymharu â 17.7% o'r rhai oedd yn credu nad oedd eu rhieni'n meddwl ei fod yn beth gwael o gwbl.**

## MANYLION AM Y DATA

Deilliodd yr ystadegau o Arolwg Ieuenctid Cymunedau sy'n Gofalu. Datblygwyd Cymunedau sy'n Gofalu (CtC) yn yr Unol Daleithiau yn yr 1980au ac fe'i sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig gan y Joseph Rowntree Foundation yn 1997, dan drwydded yr Athrawon J David Hawkins a Richard M Catalona o Brifysgol Washington, Seattle. Daeth CtC yn rhan o

Catch22 yn 2007. Gan ddefnyddio dadansoddiad o astudiaethau ymchwil arhydol nododd y rhaglen 17 o Ffactorau Risg a phump o Ffactorau Amddiffynnol sydd â'r potensial i arwain pobl ifanc at broblemau ymddygiad megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddu'n ifanc, ymddygiad gwrthgymdeithasol, methiant academaidd a beichiogrwydd yn ystod oedran ysgol.

Cynlluniwyd Arolwg Ieuenctid Cymunedau sy'n Gofalu gan Brifysgol Rhydychen i fesur ymddygiad pobl ifanc gyda golwg ar broblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lefel y risg a'r amddiffyniad yn eu bywydau. Hyd yn hyn mae Catch22 wedi gwneud arolwg o dros 300,000 o bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio Arolwg Ieuenctid CtC. Defnyddiwyd yr arolwg hefyd i werthuso rhaglen On Track Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac roedd yn sail ar gyfer adroddiad a gomisiynwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr.

Casglwyd y data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn gan ddefnyddio Arolwg Ieuenctid CtC ar gyfer pedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn ystod 2004 a 2005. Casglwyd y data trwy ddefnyddio holiadur roedd y bobl ifanc eu hunain yn ei gwblhau o fewn yr ysgolion uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Sganiwyd yr holiaduron a golygwyd unrhyw anghysondebau, camgymeriadau rheolaidd ac atebion anaddas. Yn ystod y broses hon aseswyd dilysrwydd a gonestrwydd atebion y disgyblion. Tynnwyd disgyblion oddi ar y set data os oeddent yn cwrdd ag unrhyw un o'r pum amod a ddefnyddiwyd fel sail i'r broses hon. Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar 17,933 o holiaduron dilys a gwblhawyd gan bobl ifanc oedran uwchradd o fewn pedair ardal awdurdod lleol.

## TADAU

Dros yr ugain mlynedd diwethaf bu ymchwilwyr cymdeithasol o amryw o ddisgyblaethau gwahanol wrthi'n adeiladu corff cynyddol o wybodaeth am yr effaith a gaiff tadau ar fywydau eu plant. Yr hyn sy'n dod yn amlwg o'r llenyddiaeth hon yw nad oes yna unrhyw un model sy'n ffitio rôl y tad o fewn teuluoedd heddiw. Cymhlethwyd hynny ymhellach yma yng Nghymru trwy absenoldeb unrhyw ddata sy'n benodol i Gymru. Mae mynediad i set data Catch22 wedi cynnig golwg unigryw inni am y tro cyntaf ar effaith tadau ym mywydau plant yng Nghymru heddiw.

Mae dadansoddiad o'r data wedi canolbwyntio yn y lle cyntaf ar dri maes. Yn gyntaf, cyfansoddiad teuluoedd yng Nghymru heddiw, p'un ai oes yna dad yn bresennol, ac os oes, p'un ai ef yw rhiant biolegol y plant dan sylw. Yn ail, ac yn bwysicach efallai, natur y berthynas rhwng y tad a'r plentyn, o bersbectif y person ifanc. Trwy ofyn i'r bobl ifanc pa mor agos maen nhw'n teimlo at eu tadau gallwn fesur ansawdd y berthynas hon. Mae'r dull hwn yn wahanol i lawer o'r ymchwil blaenorol sydd wedi canolbwyntio ar faint o amser mae tadau'n ei dreulio gyda'u plant, yn hytrach nag ansawdd yr amser hwnnw, ac yn sicr nid o bersbectif y person ifanc. Ac yn olaf, sut roedd y bobl ifanc yn amgyffred agweddau eu rhieni tuag at sawl gwahanol fath o ymddygiad. Gwyddom o'r llenyddiaeth bod y rhan mae'r tad yn ei gymryd, neu ddim yn ei gymryd, yn gallu cael effaith sylweddol ar y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws ystod lawn o fesurau. I gael trosolwg o'r ymchwil gweler 'The Costs and Benefits of Active Fatherhood, Fathers Direct'[1].

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr effaith a gaiff y berthynas rhwng tad a phlentyn ar ddefnydd y person ifanc o alcohol, sigarets a chyffuriau. Mae pobl ifanc heddiw'n agored i bob math o ddylanwadau ar eu bywydau, pwysau o du cyfoedion, y rhyngrwyd, ffilmiau, teledu ac yn y blaen. Gall rhieni, ac yn wir mae rhieni'n gyffredinol, gan gynnwys tadau, yn gweithredu fel ceidwaid pyrth sy'n cadw'r dylanwadau hyn draw. Ein damcaniaeth felly yw, a all perthynas dda rhwng tad a phlentyn weithredu fel ffactor amddiffynnol yn erbyn eithafion gwaethaf y dylanwadau hyn ac a ellir ei defnyddio felly i ragweld nifer o'r canlyniadau hyn? Ni allwn atal pobl ifanc rhag bod yn bobl ifanc, ond gallwn, a dylem, geisio eu cadw'n ddiogel yn ystod eu harddegau.

## DEMOGRAFFEG CYMRU

Yn 2007, roedd 19% o boblogaeth Cymru'n blant 0-15 oed. Mae hynny'n cyfateb i tua 556,600 o unigolion o blith poblogaeth gyfan o 2.98 miliwn o bobl[2]. Ac eithrio Caerdydd a Sir Gaerfyrddin, gwelwyd gostyngiad ymhob ardal Awdurdod Lleol yn nifer y plant 0-15 oed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y plant dan 5 oed, o tua 2.2 y

**Siart 1. Canrannau o blant 11-15 mlwydd oed sy'n byw gyda ffigurau tadol**




cant. Mae'r gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yn 1.9 o blant[3] ar hyn o bryd a rhagamcanir y bydd yn aros ar y lefel honno am y ddau ddegawd nesaf. Nid yw'r duedd hon i'r cyfraddau ddisgyn dan 2 (y gyfradd sy'n sicrhau bod nifer y boblogaeth yn aros yn sefydlog) yn gyfyngedig i Gymru ac fe'i gwelir ar draws llawer o Orllewin Ewrop.

Cynyddodd nifer y rhai 11 i 15 oed, sef grŵp oedran ein set data, hyd 2003, cyn dechrau gostwng. Rhagamcanir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau hyd 2015 pan fydd y boblogaeth 11 i 15 oed yn gostwng i 165,000, gostyngiad o 16.6% ers 2003. Yn 2007 roedd yna 40,200 o rai 15 oed yng Nghymru, sef y grŵp oedran y mae llawer o'r ymchwil hwn yn canolbwyntio arno.

## STRWYTHURAU TEULUOL

Mae plant o deuluoedd cyflawn sydd â dau riant yn tueddu i gael canlyniadau gwell yn eu harddegau hwyr a'u bywyd fel oedolion ifanc. Mae ymchwil[4] yn dangos bod y plant hynny sy'n byw mewn cartref gydag un rhiant yn 16 oed yn fwy tebygol, pan fyddan nhw'n 30 oed, o fod yn ysmygu, yn rhiant sengl eu hunain, mewn tai cymdeithasol, yn derbyn budd-dal ac yn byw mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio.

Roedd tua 67.4% o'r plant a holwyd yn byw mewn cartref gyda'u tad biolegol yn bresennol ar adeg yr arolwg, ac roedd 11.0% arall yn byw gyda llystad. Roedd gan 5.5% 'ffigwr tadol' yn bresennol sef cariad eu mam ac yn olaf, roedd 0.4% yn byw gyda thad maeth. Mae dadansoddiad cronnus yn dangos felly nad oedd gan ychydig dros 15% ohonynt bresenoldeb gwrywaidd arwyddocaol yn y cartref. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud nad oedd gan, ac nad oes gan nifer o'r plant hyn gyswllt â rhiant nad yw'n byw yn y cartref ar ryw adeg.

Dros ystod oedran y grŵp sampl doedd dim cynnydd mawr yn nifer y tadau oedd yn gadael y cartref. Mae hynny fel petai'n awgrymu bod mwyafrif y tadau sy'n gadael y cartref teuluol un ai wedi gwneud hynny erbyn bod y plant yn 11 oed, neu nad ydynt erioed wedi byw gyda nhw.

Mewn cymhariaeth, roedd 93.8% o'r plant yn byw gyda'u mam fiolegol ar adeg yr arolwg, 1.8% gyda llysfam, tra roedd 1.0% arall yn byw gyda chariad eu tad yn bresennol, ac yn olaf, roedd gan 0.6% fam faeth. Mae'n debygol bod cyfran sylweddol o'r gweddill yn byw mewn cartrefi un rhiant gyda'u tad.

Wedi'u hallosod ar draws Cymru gyfan, mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu y bydd traean o blant y wlad wedi gweld y teulu'n chwalu erbyn iddyn nhw gyrraedd canol eu harddegau, sy'n cyfateb yn fras i gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Byddai angen ymchwil pellach i ganfod faint o'r bobl ifanc hyn sy'n cael rhywfaint o gyswllt â'r rhiant sydd ddim yn byw yn y cartref, a graddau'r cyswllt hwnnw.

## PERTHNASAU

Roedd y set data hefyd yn dangos a oedd y bobl ifanc yn teimlo'n agos at eu tadau (a'u mamau).

Dwedodd bron i dri chwarter, 73.4% y rhai o holwyd eu bod yn teimlo'n agos neu'n agos iawn at eu tad. Fodd bynnag roedd y ffigwr hwn yn codi i 89.0% pan ofynnwyd yr un cwestiwn mewn perthynas â'u mam. Gan fod y ffigyrau hyn yn debygol o gael eu gogwyddo gan y lefel arwyddocaol o absenoldeb tadau o'r cartref y soniwyd amdano ynghynt, cymhathwyd y data hwn â'r data oedd yn nodi a oedd y bobl ifanc yn byw gyda'u tad ai pheidio. Dwedodd 86.2% o'r bobl ifanc oedd yn byw gyda'u tadau eu bod yn teimlo'n agos neu'n agos iawn ato, sy'n agosach o lawer i'r ffigwr ar gyfer mamau.

Yn bwysicaf oll fodd bynnag, roedd bron i hanner y

bobl ifanc, 47.0% oedd ddim yn byw gyda'u tad yn dal i ddweud eu bod yn teimlo'n agos ato. Dwedodd 24.0% o'r rhai oedd ddim yn byw gyda'u tad nad oedden nhw'n ei weld, ac mae hynny'n awgrymu bod mwyafrif helaeth y rhai sy'n dal i weld eu tadau'n teimlo'n agos atyn nhw er bod y teulu wedi chwalu.

Yn olaf, rhannwyd y dadansoddiad yn ôl rhyw. Roedd mwy o fechgyn na merched yn teimlo'n agos at eu tadau; 78.6% o'i gymharu â 69.0%. Yn ddiddorol, roedd ychydig yn fwy o fechgyn, 90.4%, na merched, 88.1%, hefyd yn teimlo'n agos at eu mamau.

Yn drist dwedodd tua 4.0% nad oedden nhw'n teimlo'n agos at yr un o'r ddau riant, a dwedodd canran fach iawn, 0.3% nad oedden nhw'n gweld yr un rhiant. Mae hynny'n awgrymu bod tua un o bob ugain person ifanc yng Nghymru heddiw'n rhan o deulu lle mae'r berthynas rhwng y rhiant â'r plentyn wedi chwalu'n llwyr.

## ALCOHOL, YSMYGU A DEFNYDDIO CYFFURIAU

Yna dadansoddwyd effaith perthynas pobl ifanc â'u tadau ar eu defnydd o alcohol, sigaréts a chyffuriau. Er mwyn gwneud hyn, edrychon ni ar y defnydd o alcohol, sigaréts a chyffuriau ar gyfer y grŵp oedran cyfan, ac yna ar effaith y berthynas â'r tad ar rai 15 oed. Roedd angen edrych ar un grŵp oedran penodol yn hyn o beth am fod y berthynas â'r tad yn ogystal â'r defnydd o sylweddau'n cael ei ddylanwadu gan oedran.

## ALCOHOL

Mae nifer o bobl ifanc yn debygol o arbrofi gydag alcohol ar ryw adeg tra'n tyfu fyny. Nid yw'r ymddygiad ynddo'i hun yn golygu bod yna broblemau o angenrheidrwydd. Fodd bynnag, mae yna oblygiadau difrifol os oes yna yfed cyson uwchlaw'r lefelau a argymhellir, nid yn unig o ran iechyd y person ifanc ond hefyd gyda golwg ar nifer o ganlyniadau eraill. Gofynnodd yr arolwg felly, "Yn y pedair wythnos ddiwethaf, faint o weithiau wyt ti wedi cael pum diod alcoholig neu fwy, un ar ôl y llall?"

Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o bobl ifanc o bob grŵp oedran, o 11 i 16 a ddwedodd iddyn nhw yfed pum diod neu fwy dros deirgwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol.

**Tabl 1.**

| Oedran | Canran y bobl ifanc a yfodd 5 diod neu fwy dros deirgwaith yn y 4 wythnos flaenorol |
|---|---|
| 11 | 2.0% |
| 12 | 3.9% |
| 13 | 8.1% |
| 14 | 15.4% |
| 15 | 24.4% |
| 16 | 30.2% |

O edrych ar rai 15 oed yn unig:

- cafodd 24.4% 5 diod neu fwy dros deirgwaith yn ystod y 4 wythnos flaenorol
- roedd 28.3% wedi yfed 5diod neu fwy ar un neu ddau achlysur
- roedd 44.4% heb yfed 5 gwaith neu fwy yn ystod y cyfnod dan sylw

Nid yw'r data hwn yn rhoi unrhyw ystyriaeth i natur y berthynas â'u tad. Mae hynny'n awgrymu bod tua chwarter y bobl ifanc 15 oed yn yfed yn rheolaidd ar lefelau sy'n debygol o wneud niwed difrifol iddyn nhw, un ai nawr neu yn y dyfodol. Yna aethpwyd ati i reoli'r data yn ôl natur y berthynas â'u tad.

**Siart 2. Effaith y berthynas Tad/Plentyn ar y Defnydd o Alcohol ymysg plant 15 mlwydd oed**



Ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd yn teimlo'n agos iawn at eu tad:

- cafodd 21.3% 5 diod neu fwy dros deirgwaith yn ystod y 4 wythnos flaenorol
- roedd 28.1% wedi cael 5 diod neu fwy ar un neu ddau achlysur
- roedd 47.7% heb yfed 5 gwaith neu fwy yn ystod y cyfnod dan sylw

Fodd bynnag, gyda'r bobl ifanc hynny oedd ddim yn teimlo'n agos iawn at eu tad:

- cafodd 33.2% 5 diod neu fwy dros deirgwaith yn ystod y 4 wythnos flaenorol
- roedd 28.3% wedi cael 5 diod neu fwy ar un neu ddau achlysur
- roedd 35.6% heb yfed 5 gwaith neu fwy yn ystod y cyfnod dan sylw

O blith y rhai oedd ddim yn gweld eu tad:

- cafodd 27.3% 5 diod neu fwy dros deirgwaith yn ystod y 4 wythnos flaenorol
- roedd 30.5% wedi cael 5 diod neu fwy ar un neu ddau achlysur
- roedd 40.2% heb yfed 5 gwaith neu fwy yn ystod y cyfnod dan sylw

Ymysg y bobl ifanc oedd wedi yfed dros 10 gwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol, roedd y ffigwr yn codi o 3.2% i 6.0% ymhlith y rhai oedd ddim yn teimlo'n agos at eu tad. Mae'r canlyniadau fel petaen nhw'n dangos felly bod perthynas dda gyda'r tad i'w weld yn ffactor amddiffynnol ymhlith y rhai sydd â'r risg uchaf.

## YSMYGU

Mae patrwm digon tebyg i'w weld mewn perthynas â thuedd pobl ifanc i ysmygu.

**Tabl 2.**

| Oed y Person Ifanc | Heb ysmygu sigarét erioed | Ysmygu'n rheolaidd |
|---|---|---|
| 11 | 78.9% | 0.8% |
| 12 | 71.0% | 1.5% |
| 13 | 59.2% | 5.2% |
| 14 | 46.4% | 11.6% |
| 15 | 38.7% | 17.7% |
| 16 | 35.6% | 18.9% |

Unwaith eto, aethpwyd ati i reoli'r data ar gyfer plant 15 mlwydd oedyn ôl natur y berthynas â'u tad.

Roedd y berthynas â'r tad i'w weld yn cael effaith ar p'un ai oedd person ifanc wedi rhoi cynnig ar ysmygu yn ogystal â ph'un ai oedden nhw'n ysmygu'n rheolaidd.

- doedd 44.0% o'r bobl ifanc oedd yn teimlo'n agos at eu tad erioed wedi ysmygu, o'i gymharu â 24.7% o'r rhai oedd ddim yn teimlo'n agos ato, a 31.2% o'r rhai oedd ddim yn ei weld.

- roedd 14.4% o'r rhai oedd yn teimlo'n agos at eu tad yn ysmygu'n rheolaidd, o'i gymharu â 25.1% oedd ddim yn teimlo'n agos ato a 25.7% o'r rhai oedd ddim yn ei weld.

Er bod y canlyniadau hyn yn dangos effaith posib y berthynas rhwng tad â phlentyn, dydyn nhw ddim yn ystyried a ydy'r tad (neu'r fam) ei hun yn ysmygu.

Felly, cymhathwyd y data ar gyfer yr holl bobl ifanc yn y sampl yn ôl p'un ai oedd rhieni, neu lysrieni'r person ifanc, yn ysmygu. Does dim ffigyrau ar wahân ar gyfer tadau a mamau ar gael yma.

**Tabl 3.**

| | Erioed wedi ysmygu sigarét | Ysmygu'n rheolaidd |
|---|---|---|
| Rhieni'n Ysmygu | 47.2% | 14.3% |
| Rhieni ddim yn Ysmygu | 64.2% | 5.1% |

**Siart 3. Effaith y berthynas Tad/Plentyn ar Ysmygu ymysg plant 15 mlwydd oed**



Mae'r ffigyrau'n dangos bod 14.3% o'r bobl ifanc sydd â rhieni'n sy'n ysmygu, yn ysmygu'u hunain, o'i gymharu â 5.1% o'r rhai sydd â rhieni sydd ddim yn ysmygu. Mae hyn yn dangos bod pobl ifanc sydd â rhieni sy'n ysmygu lawer yn fwy tebygol o roi cynnig ar ysmygu ac ysmygu'n rheolaidd eu hunain.

## CYFFURIAU

Dadansoddwyd y data hefyd mewn perthynas â defnydd rhai 15 oed o gyffuriau. Gofynnwyd iddynt a oedden nhw erioed wedi cymryd unrhyw un o'r cyffuriau canlynol: canabis, ecstasi, LSD, toddyddion nwy neu aerosol, amffetaminau, madarch hud, cocên, heroin, barbitiwradau, tawelyddion, neu damazepam heb bresgripsiwn doctor.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r defnydd o gyffuriau'n cynyddu gydag oedran:

**Tabl 4.**

| Oedran | Canran y bobl ifanc sydd wedi defnyddio un o'r cyffuriau a restrwyd |
|---|---|
| 11 | 5.7% |
| 12 | 8.3% |
| 13 | 14.6% |
| 14 | 23.0% |
| 15 | 31.4% |
| 16 | 37.5% |

Fel ag o'r blaen, edrychwyd ar rai 15 oed yn unig a rheolwyd y data yn ôl natur eu perthynas â'u tad.

Ymhlith y bobl ifanc hynny oedd yn teimlo'n agos at eu tad, roedd 27.0% wedi cymryd o leiaf un o'r cyffuriau a restrwyd o'i gymharu â 43.2% oedd ddim yn teimlo'n agos at eu tad a 37.6% oedd ddim yn gweld eu tad.

## CANABIS

Roedd y defnydd o'r rhan fwyaf o'r cyffuriau ar y rhestr yn isel iawn, ac o ganlyniad gwnaethpwyd dadansoddiad pellach oedd yn canolbwyntio ar y defnydd o ganabis, y cyffur a ddefnyddir amlaf ymhlith y grŵp oedran hwn. Roedd 28.0% o'r holl rai 15 oed a holwyd wedi defnyddio canabis o leiaf unwaith.

Fodd bynnag, er mwyn gwahaniaethu rhwng y bobl ifanc hynny oedd wedi arbrofi gyda'r cyffur yn unig,

**Siart 4. Effaith y berthynas Tad/Plentyn ar y Defnydd o Gyffuriau ymysg plant 15 mlwydd oed**




a'r rhai oedd yn ei ddefnyddio'n fwy rheolaidd, gwahanwyd yr unigolion hynny oedd wedi'i ddefnyddio deirgwaith neu fwy. Roedd 16.8% o'r rhai 15 oed wedi defnyddio canabis deirgwaith neu fwy. Eto, cymhathwyd y data hwn â natur y berthynas rhwng y tad â'r plentyn.

O blith y rhai 15 oed oedd yn teimlo'n agos at eu tad roedd 13.8% wedi cymryd canabis deirgwaith neu fwy, o'i gymharu â 24.7% o'r rhai oedd ddim

**Siart 5. Effaith y berthynas Tad/Plentyn ar y Defnydd o Ganabis ymysg plant 15 mlwydd oed**



yn teimlo'n agos at eu tad a 20.3% oedd ddim yn gweld eu tad.

## AMGYFFRED AGWEDDAU RHIENI

Roedd y dadansoddiad hefyd yn edrych ar agweddau pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd tuag at alcohol, sigaréts a chyffuriau. Yn yr achos hwn mae agweddau'r rhieni yn cynnwys agweddau'r fam a'r tad am nad oedd data ar wahân ar gael.

## AGWEDDAU TUAG AT ALCOHOL

Gofynnwyd i'r bobl ifanc "I ba raddau wyt ti'n meddwl bod dy rieni'n teimlo ei fod yn beth gwael dy fod yn yfed alcohol?". Yna cawsant ddewis o blith yr ymatebion canlynol, "Gwael lawn", "Gwael", "Ychydig yn Wael" neu "Ddim yn Wael o Gwbl". Mae'r tabl canlynol yn dangos eu hymatebion:

**Tabl 5.**

| Oed y Person Ifanc | Gwael neu Wael Iawn | Ychydig yn Wael | Ddim yn Wael o Gwbl |
|---|---|---|---|
| 11 | 92.0% | 5.0% | 1.6% |
| 12 | 90.7% | 6.4% | 1.8% |
| 13 | 84.4% | 11.8% | 3.0% |
| 14 | 76.5% | 17.5% | 5.0% |
| 15 | 64.7% | 26.7% | 7.9% |
| 16 | 55.6% | 32.2% | 11.6% |

Cymhathwyd yr wybodaeth hon gyda ph'un ai oedd y bobl ifanc yn yfed alcohol yn rheolaidd ai pheidio. Roedd 55.7% o'r rhai 15 oed oedd yn credu nad oedd eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael eu bod nhw'n yfed alcohol wedi yfed 5 neu fwy o ddiodydd dros deirgwaith yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf. Mae hynny'n cymharu â 10.7% o'r rhai oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael iawn eu bod yn yfed alcohol.

## AGWEDDAU TUAG AT YSMYGU

Fel gydag alcohol, gofynnwyd i'r bobl ifanc "I ba raddau mae dy rieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael dy fod yn ysmygu?". Dangosir eu hymatebion yn y tabl isod:

**Tabl 6.**

| Oed y Person Ifanc | Gwael neu Wael Iawn | Ychydig yn Wael | Ddim yn Wael o Gwbl |
|---|---|---|---|
| 11 | 96.8% | 1.2% | 1.1% |
| 12 | 96.3% | 1.7% | 1.1% |
| 13 | 92.7% | 4.4% | 2.2% |
| 14 | 87.0% | 7.5% | 4.4% |
| 15 | 80.5% | 11.8% | 6.8% |
| 16 | 74.6% | 15.4% | 9.3% |

Unwaith eto cymhathwyd yr wybodaeth hon gyda ph'un ai oedd y bobl ifanc yn ysmygu ai pheidio. Roedd 5.0% o'r rhai 15 oed oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael eu bod yn ysmygu, yn ysmygu'n rheolaidd o'i gymharu â 77.2% o'r rhai oedd yn credu nad oedd eu rhieni'n meddwl ei fod yn beth gwael o gwbl.

## AGWEDDAU TUAG AT GANABIS

Gofynnwyd i'r bobl ifanc "I ba raddau wyt ti'n meddwl bod dy rieni'n credu ei bod hi'n beth gwael iti ddefnyddio canabis?"

**Tabl 7.**

| Oed y Person Ifanc | Gwael neu Wael Iawn | Ychydig yn Wael | Ddim yn Wael o Gwbl |
|---|---|---|---|
| 11 | 98.0% | 0.1% | 0.7% |
| 12 | 97.6% | 0.5% | 0.8% |
| 13 | 96.8% | 1.4% | 1.2% |
| 14 | 94.8% | 2.8% | 1.3% |
| 15 | 93.2% | 4.1% | 1.8% |
| 16 | 92.4% | 5.0% | 2.1% |

Eto, cymhathwyd yr wybodaeth hon a ph'un ai oedd y bobl ifanc yn defnyddio canabis ai pheidio.

Doedd 74.6% o'r rhai 15 oed oedd yn credu bod eu rhieni'n meddwl ei bod hi'n beth gwael eu bod yn ysmygu canabis erioed wedi ei ysmygu o'i gymharu ag 17.7% o'r rhai oedd yn credu nad nad oedd eu rhieni'n meddwl ei fod yn beth gwael o gwbl.

## CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Deilliodd y data o bedair ardal Awdurdod Lleol sy'n cynnig sampl gynrychioliadol dda o Gymru

gyfan. O ganlyniad i'r ffaith honno, ac oherwydd bod y sampl yn un fawr, rydym yn hyderus bod y data'n cynrychioli darlun cywir o fywyd teuluol yng Nghymru heddiw.

Yn ogystal â phwysigrwydd y berthynas rhwng tad a phlentyn, rydym yn cydnabod yr effaith a gaiff perthynas pobl ifanc â'u mamau hefyd ar nifer o'r canlyniadau y buom yn edrych arnynt. Er nad ydym am fychanu'r effaith honno, pwrpas y dadansoddiad hwn oedd canolbwyntio ar y rôl mae tadau'n ei chwarae wrth fagu plant. Roedd dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, mae llawer o'r ffocws ar gefnogi rhieni wedi canolbwyntio yn y gorffennol ar weithio gyda'r fam yn hytrach na'r tad, ac yn ail, oherwydd y cyfraddau uchel o blant oedd yn tyfu fyny heb dadau yn eu bywydau, roedd modd inni ddefnyddio hynny i reoli'r effaith a gaiff y berthynas honno. Dyw hynny ddim yn bosibl gyda mamau am fod tua 94% o'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg yn byw ar y pryd gyda'u mamau.

Gall absenoldeb y tad weithredu ar ddwy lefel. Yn gyntaf, gallant fod yn gorfforol absennol o fywydau'r bobl ifanc, yn gyffredinol oherwydd bod y teulu wedi chwalu. Ond yn ail, ac o bosib, yn fwy arwyddocaol, gallant fod yn absennol ar lefel emosiynol. Trwy ddadansoddi agosatrwydd pobl ifanc at eu tadau roedd modd inni fesur p'un ai ydy perthynas agos gyda'r tad, yn fwy na'i bresenoldeb corfforol, yn rhywbeth all effeithio ar ymddygiad nifer o'r bobl ifanc hyn o ran defnyddio sylweddol yn ystod eu harddegau.

Ymhob un o'r tri maes a ddewiswyd gennym, sef alcohol, ysmygu a chanabis, mae patrwm clir yn ymddangos. Gall perthynas dda rhwng tad a phlentyn weithredu fel ffactor amddiffynnol gyda golwg ar gamddefnydd pobl ifanc o'r sylweddau hyn. Ymddengys bod hyn yn arbennig o wir yn y grwpiau risg uchel.

Hefyd, ymddengys bod gennym dystiolaeth gref o'r ffordd mae agweddau rhieni'n dylanwadu ar ymddygiad pobl ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir o ran agwedd rhai 15 oed tuag at ysmygu, er iddo gael effaith ar y meysydd eraill yr edrychon ni arnyn nhw hefyd.

Mae goblygiadau hyn yn glir felly. Os ydyn ni am leihau ymddygiad o'r fath ymhlith pobl ifanc rydym yn argymell y canlynol.

- Rhaid inni wneud mwy i gynnal y berthynas rhwng plant â'u tadau ar ôl i'r rhieni wahanu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo eisoes i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc fel y'u gosodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 9.3 o'r confensiwn yn dweud: Bydd aelod-wladwriaethau'n parchu hawl y plentyn sydd wedi'i wahanu o un neu'r ddau riant i gael perthynas bersonol a chyswllt uniongyrchol â'r ddau riant yn rheolaidd, oni bai bod hynny'n mynd yn groes i les pennaf y plentyn". Mae'r ffaith bod y canlyniadau hyn yn dangos bod yna, o bosib, tua 8% o bobl ifanc yng Nghymru sydd ddim yn gweld eu tadau'n awgrymu bod angen inni wneud llawer mwy i wneud hyn yn realiti.
- Mae angen inni ail-edrych ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o fewn nifer o deuluoedd. Cyfyngiadau gweithio oriau hir yw'r hyn a nodir yn gyson gan dadau fel y rhwystr pennaf rhag bod ar gael a chymryd mwy o ran ym mywydau eu plant. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu arferion ystyriol o deuluoedd yn y gweithle ar gyfer y fam, ond yn anffodus, does dim byd sy'n cyfateb i hynny, ar gyfer y tad.

Er y byddai 'na, yn ddiamau, oblygiadau o ran costau petai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu, mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir y byddai'r buddiannau cydredol i bobl ifanc, ar lefel unigol a hefyd yn nhermau baich y gost i'r gymdeithas gyfan, yn fwy na gwneud iawn am unrhyw wariant. Ar yr un pryd, gallem fod yn hyderus ein bod yn gwella ansawdd bywyd ein plant yn ogystal â gwella nifer o'r canlyniadau ar eu cyfer.

## CYFEIRIADAU


1. Adrienne Burgess, (2006) *The Costs and Benefits of Active Fatherhood, Evidence and insights to information the development of policy and practice*, Papur a baratowyd gan Fathers Direct fel sylfaen ar gyfer Adolygiad Polisi Plant a Phobl Ifanc y DfES/Trysorlys EM ar y cyd, Fathers Direct
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2008) *Bwletin Ystadegol: 2007 Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth*, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
3. Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2008) *Bwletin Ystadegol: Y Boblogaeth 0-19 oed yng Nghymru rhwng 1991 a 2031*, Llywodraeth Cynulliad Cymru
4. Julia Margo a Mike Dixon gyda Nick Pearce a Howard Reed (2006) *Freedom's Orphans: Raising youth in a changing world, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.*